OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2861 (Cy. 271) (C. 115)

# TAI, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 (Cychwyn) (Cymru) 2013

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 i rym yng Nghymru. Daw'r Ddeddf i rym (ac eithrio adran 12, a ddaeth i rym drwy Gydsyniad Brenhinol) ar y diwrnod wedi'r diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2861 (Cy. 271) (C. 115)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 (Cychwyn) (Cymru) 2013

*Gwnaed* *4 Tachwedd 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 12(3) o Ddeddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013([1]), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 (Cychwyn) (Cymru) 2013.

**Cychwyn a chymhwyso**

**2.** Daw Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 (ac eithrio adran 12) i rym mewn perthynas â Chymru ar y diwrnod wedi'r diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

4 Tachwedd 2013

([1]) 2013 p.3.